Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ADRODDIAD

# Crynodeb cofnodion Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl: 28 Mehefin 2018

Crynodeb cofnodion cyfarfod Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2018.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 28 Mehefin 2018

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 28 Mehefin 2018

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-cofnodion-grwp-cynghorir-gweinidog-ar-ofalwyr-di-dal-28-mehefin-2018-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Crynodeb

## Pwyntiau gweithredu sy'n codi



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-cofnodion-grwp-cynghorir-gweinidog-ar-ofalwyr-di-dal-28-mehefin-2018-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Crynodeb

Cyflwyniadau – Croesawodd Huw Irranca-Davies, AC, y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, yr aelodau i gyfarfod cyntaf Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr (y Grŵp Cynghori). Tynnodd sylw at gamau i gefnogi'r tair blaenoriaeth genedlaethol i ofalwyr, a gyhoeddwyd ar Ddiwrnod Hawliau Gofalwyr, ym mis Tachwedd 2017. Trafodwyd pob math o bynciau fel codi proffil gofalwyr di-dâl; amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; ac annog prosiectau arloesol i gefnogi gofalwyr.

Trafodwyd Cylch Gwaith drafft y Grŵp Cynghori, a chafwyd llu o sylwadau a chynigiwyd diwygiadau i'w hadolygu, er mwyn cytuno arnynt yn y cyfarfod nesaf.

Cafodd cynllun blynyddol y gofalwyr (2018-19) ei gyflwyno, a oedd yn darparu trosolwg o'r grant penodol a'r cyllid a ddyrannwyd i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gan Lywodraeth Cymru er mwyn bwrw ymlaen i gyflawni yn erbyn y tair blaenoriaeth genedlaethol i ofalwyr yn 2018-19.

Bu'r aelodau yn trafod manteision creu Grŵp Ymgysylltu ac Atebolrwydd newydd a allai helpu a hwyluso mwy o ofalwyr unigol i gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Grŵp Cynghori, gan gynrychioli carfanau gwahanol o ofalwyr e.e. gofalu am unigolion â dementia, gofalu am rywun â phroblemau camddefnyddio sylweddau, a gofalwyr ifanc.

Trafodwyd trefniadau cadeirio'r grŵp yn y dyfodol. Nid oedd Cadeirydd wedi'i ddewis eto – ac un opsiwn oedd cael un o swyddogion Llywodraeth Cymru yn Gadeirydd, ac aelod o'r Grŵp Cynghori yn gyd-gadeirydd o bosib.

Awgrymodd yr aelodau bynciau trafod posib yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Cynghori, gan gynnwys: seibiant i ofalwyr; adroddiad Ailystyried Seibiant Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; a sut cafodd cyllid blynyddol £1 filiwn Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i ategu eu gwaith gyda phartneriaethau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-cofnodion-grwp-cynghorir-gweinidog-ar-ofalwyr-di-dal-28-mehefin-2018-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gofalwyr.

## Pwyntiau gweithredu sy’n codi

- Safbwyntiau a syniadau ar sefydlu’r Grŵp Ymgysylltu ac Atebolrwydd ac aelodaeth ohono;
- Aelodau i gyflwyno eu syniadau ac/neu enwebiadau ar gyfer rôl cadeirydd y Grŵp Cynghori a chyd-gadeirydd posib.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-cofnodion-grwp-cynghorir-gweinidog-ar-ofalwyr-di-dal-28-mehefin-2018-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.